

## Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn parhau i gyflwyno Bob Davies (Llanfair) a Morfudd Williams (Henllan) i'r Arglwydd yn ein gweddiâu, ac yn hyderu y byddant adnabod cariad Duw yn eu hamgylchynnu. Diolchwn am y gofal y maent yn ei brofi yn Ysbyty Llandudno ac Ysbyty Glan Clwyd. Deallwn fod Elsa Mair, merch fach Aled a Nerys Jones (Saron) wedi treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty hefyd ond mae'n dda clywed ei bod yn well erbyn hyn. Dymunwn wellhad buan hefyd i Lowri Davies (Saron) a Dewi Jones (Llansannan), y ddau wedi cael anffawd yn ddiweddar. Yn yr un modd, cyflwynwn i ofal yr Arglwydd bawb arall o'r Ofalaeth sy'n wynebu neu'n derbyn triniaeth neu sydd heb fod yn dda eu hiechyd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt hwythau. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Meirion Evans (Henllan) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig!

## Argyfwng y Philippines

Yn dilyn y drychineb ddiweddar yn y Philippines, casglwyd cyfanswm o **£1840.87** ym Mro Aled rhwng cyfraniadau unigolion, y Ffair Crefftau Nadolig, Parti Nadolig CIC a Swper Adnabod. Diolch o galon i bawb am eich rhoddion hael. Mae'r arian bellach wedi ei anfon i Tearfund sydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r eglwysi yn y Philippines mewn ardaloedd lle mae'r angen yn ddirfawr. Plis parhewch i weddio dros y rhai sydd wedi eu heffeithio a thros y rhai sydd yn gweithio ac yn ceisio ymateb i'r angen yno.

## I ddod

- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 31ain–Chwefror 2il.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 7fed–9fed.
- **ARFOGI 14** – Penwythnos i fyfyrwyr ac oedolion ifanc yng Ngholeg y Bala Chwefror 14eg–16eg i annog ac arfogi cenhedlaeth newydd. Mwy o fanylion trwy ffonio (01678) 520565 neu ewch i'r wefan [www.souledoutcymru.net](http://www.souledoutcymru.net).
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth 2il.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Berain, Mawrth 13eg, am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am “Ffynhonnau”.
- **LLANW** – Mae'r amser wedi dod i archebu eich lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw – cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain–25ain. Mae croeso i bawb, plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae croeso cynnes i'r di-Gymraeg ac i ddysgwyr; bydd offer cyfieithu ar gael. Am fwy o wybodaeth ac i gael ffurflen archebu, ewch i'r wefan: [www.llanw.org](http://www.llanw.org)

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12<sup>fed</sup> Ionawr 2014

## Darlleniad y Dydd

1 Cronicl 28:6-10

(BCND: tud.392 / BCN: tud.358)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n gwasanaethau heddiw. Wrth i ni ddod i geisio Duw gyda'n gilydd, gweddiwn ar i'r Ysbryd Glân weithio'n rymus yn ein plith i ddangos i ni ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist.

Mae dathliadau'r flwyddyn newydd yn tueddu i basio heibio'n sydyn iawn. Oni bai am nos a dydd Calan ac oedfaon blwyddyn newydd yn yr wythnos gyntaf, o fewn dim mae'r hen drefn wedi dychwelyd – gwaith, gorffwys, oedfaon a digwyddiadau fel yr oeddynt cyn y Nadolig. Ond nid felly y mae hi ar y bobl sy'n byw mewn rhannau o Sir Benfro a gorllewin Cymru lle mae'r arferiad o ddathlu'r Hen Galan yn parhau. Maent hwy'n dathlu'r Calan ar y trydydd dydd ar ddeg o fis Ionawr gan mai dyna'r arferiad cyn y newid o'r hen galendr Iwlaidd i'r calendr Gregoraidd newydd ym 1752. Oherwydd y newid rhwng calendrau, diflannodd 11 o ddiwrnodau o flwyddyn 1752 yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ddigon drwg pan sylweddolwn mor gyflym mae wythnosau yn troi yn fisoedd a Nadolig arall bron a chyrraedd, dychmygwch gael bron i bythefnos yn diflannu ar ben hynny!

Wrth ystyried hyn, daw hi'n glir mor bwysig yw gwneud y gorau o'r amser sydd gennym. Gwelwn fod ein darlleniad heddiw o lyfr cyntaf Cronicl yn cynnwys siars y brenin Dafydd i'w fab Solomon ac i bobl Dduw. Mae Dafydd yn rhoi anogaeth gref i'r bobl gadw at Air Duw er mwyn iddynt adael etifeddiaeth i'w plant. Yn ychwanegol, rhoddodd siars i Solomon i adnabod a gwasanaethu Duw'n ufudd, gan ei geisio a pheidio'i wrthod ar unrhyw gyfrif. Mae'r geiriau hyn yr un mor berthnasol i ninnau hefyd. Beth bynnag a ddaw yn y dyfodol, mae'r cyfle gennym heddiw i ymateb i ras a chariad Duw, i droi cefn ar ein hen fywyd ac ildio'n llwyr i Iesu Grist. Iesu ei hun a gyhoeddodd "Y mae'r amser wedi ei gyflawni ac y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a chredwch yr Efengyl." (Marc 1:15) Beth am i ni achub ar ein cyfle gan ddod mewn ffydd at Iesu a derbyn o'i fendithion tragwyddol. O wneud hynny, cawn y fraint o ddefnyddio gweddill ein hamser yn byw i addoli Duw wrth wasanaethu Crist, ein Meistr ni.

Cofiwch hefyd am Wyl Llanw gan fod y dyddiad cau i archebu carafan yn prysur agosáu – Ionawr 24. Mae'n gyfle gwych i bob oed foli Duw a phrofi dysgeidiaeth Feiblaidd gyda Christnogion ar draws Cymru. Ar ben hyn cawn fwynhau traethau a golygfeydd hynod Sir Benfro, dewch yn llw!

*Rhodri*

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Colosiaid 2:6-10 (BCND: tud.221 / BCN: tud.202)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd oedfa wedi ei threfnu ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau